# SL(6)653 – Rheoliadau Safonau Marchnata Cig Dofednod Maes (Diwygio) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio, o ran Cymru, Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer cig dofednod (EUR 2008/543).

Mae rheoliad 2 yn diwygio Atodiad 5 i Reoliad y Comisiwn (EC) 543/2008 i ddileu'r cyfnod amser hwyaf presennol y gall dofednod a fegir yn unol â dulliau cynhyrchu maes fod â chyfyngiad ar eu mynediad i rediadau awyr agored (drwy fesurau a roddir ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid) tra caniateir parhau i farchnata eu cig, yng Nghymru, fel cig dofednod maes.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r nodiadau pennawd italig ar frig tudalennau 1 a 2 yn nodi bod y Rheoliadau hyn wedi'u gosod gerbron y Senedd o dan "adran 50(6) a (7)(n)" o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Fodd bynnag, mae trydydd paragraff y rhagair yn nodi bod y Rheoliadau hyn wedi'u gosod gerbron y Senedd yn unol ag "adran 50(6)" o'r Ddeddf honno. Dylai'r darpariaethau a ddyfynnir yn y nodiadau pennawd a'r rhagair fod yn gyson â'i gilydd ac mae'n ymddangos bod y nodiadau pennawd yn cynnwys y dyfyniad mwyaf cywir ar yr achlysur hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn nhrydydd paragraff y rhagair, mae'n cyfeirio at "adran 50(6) **o'r Ddeddf**". Fodd bynnag, nid yw'r term "y Ddeddf" wedi'i ddiffinio ac ni roddwyd ystyr iddo yn flaenorol yn y Rheoliadau hyn. Felly, dylai'r cyfeiriad naill ai ailadrodd teitl Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn llawn

neu dylid diffinio teitl y Ddeddf honno drwy nodi "y Ddeddf" mewn cromfachau ar ôl y cyfeiriad cyntaf at y Ddeddf honno ym mharagraff agoriadol y rhaglith.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.